# Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Henfynyw ar y 14eg o Fai 2019 yn Neuadd Goffa Llwyncelyn am 7.30 yh

**Cyfarfod Blynyddol:**

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Mai 2018 gan y Cadeirydd a'u cafwyd yn gywir. Aethpwyd ymlaen i benodi'r Cynghorydd Gerallt Davies yn Gadeirydd a'r Cynghorydd Eiddwen Merritt yn Is-Gadeirydd am y ddwy flynedd nesaf.

**Cyfarfod Misol**

**Presennol:**

Cynghorwyr Gerallt Davies (Cadeirydd), Eiddwen Merritt,
Ruby Williams, Garym Roberts a Barry Owen.

**Hefyd yn bresennol:**

Y Clerc.

**Ymddiheuriadau:** Ein Cynghorydd Sir, Marc Davies,
Cynghorwyr Wyn Jones, Wyn Evans, Jocelyn Andrew a Carys Morgan.

**Datgelu buddiannau:**

Yn cael eu parchu.

**Cofnodion:**

Darllenwyd cofnodion Mis Ebrill a'u cafwyd yn gywir.

**Codi o'r cofnodion**

Dim.

**Mater cynllunio:**

Dim.

**Enwi Datblygiad Newydd**

Derbyniwyd lythyr oddiwrth yr Adran Reoli Cyfeiriadau, Cyngor Sir Ceredigion yn nodi fod y datblygwyr sy'n codi tai ger Wenfryn, Ffos-y-ffin yn enwi'r safle yn 'Y Padogau'. Paswyd fod yr enw yn foddhaol.

**Ymgynghoriad tawelu traffig ar Rhiwgoch:**
Cawsom wybod am ymgynghoriad ynghylch y bwriad i gyflwyno mesurau tawelu traffig ar hyd Rhiwgoch. Paswyd fod hyn yn mynd i wella ar ddiogelwch ar y ffordd.
**Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru:**
Darllenwyd yr Adroddiad Blynyddol am 2019/20. Tynnwyd sylw am yr argymhelliad i Gynghorwyr dderbyn taliad o £150 y flwyddyn at gostau a threuliau. Paswyd eu bod yn tynnu allan o hyn.
**Cynrychiolwyr Heddlu a Throsedd:**
Enwau cynrychiolwyr Ceredigion sydd ar panel Heddlu a Throseddau yw:
Cynghorwyr Alun Lloyd-Jones, Keith Evans, Lloyd Edwards a Ian Roffe
**Cyfrifon y flwyddyn:**
Derbyniwyd y cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31ain o Fawrth 2019 a'i cymeradwyo.
**Unrhyw Fater Arall:**
Awgrymodd y Cynghorydd Ruby Williams i'r pwyllgor ddanfon llythyr i'r Adran Gefnffordd i gydnabod ei gwaith arbennig o ail-arwynebu'r ffordd rhwng Henfynyw ac Aberaeron. Gofynwyd i'r Clerc ddanfon lythyr o ddiolch.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 11fed o Fehefin.